

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 5ed Tachwedd, 2024, 2.00 pm

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)
YN
BRESENNOL: Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Emma Bryn, Jan Butler,
John Crook, Tony Easson, Meirion Howells, Su McConnel,
Jayne McKenna, Maureen Powell, Sue Riley, Ann Webb

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Craig O'Connor	Pennaeth Cynllunio
Philip Thomas	Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Andrew Jones	Development Management Area Team Manager
Amy Longford	Rheolwr Treftadaeth
Paige Moseley	Solicitor
Richard Ray	Paralegal
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol Sara Burch

1. Datganiadau o Fuddiant.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir Phil Murphy ddatganiad o fuddiant personol nad oedd yn rhagfarnu yn unol â'r cod ymddygiad yng nghyswllt cais DM/2024/00985, gan yr arferai ei fab weithio gyda'r ymgeisydd.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir Meirion Howells ddatganiad o fuddiant personol oedd yn rhagfarnu yn unol â'r cod ymddygiad Aelodau yng nghyswllt cais DM/2023/01679, gan ei fod yn heddychwyr. Felly gadawodd y cyfarfod ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na phleidleisio ar hynny yng nghyswllt y cais hwn.

<https://www.youtube.com/live/r5JUTxRgl-4?si=qb9t5xfpNvKoAeXX&t=169>

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cafodd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 1 Hydref 2024 eu cadarnhau a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

<https://www.youtube.com/live/r5JUTxRgl-4?si=np8NbdgMfA6meNid&t=200>

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 5ed Tachwedd, 2024, 2.00 pm

3. Cais DM/2023/01341 - Adeiladu Annedd Newydd. 33 Stryd Maryport, Brynbuga, NP15 1AE.

Gohiriwyd ystyried cais DM/2023/01341 i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol er mwyn galluogi swyddogion i drin materion a godwyd yng nghyswllt y safle a'r effaith ar gymdogion.

<https://www.youtube.com/live/r5JUTxRgl-4?si=98aQ0wTrjXcpmGsK&t=257>

4. Cais DM/2023/01679 - Adeiladu adeilad ar gyfer gwasanaeth arfau rhyfel, echdynnu deunydd o byllau benthyg ar gyfer adeiladu twmpathau ffrwydro oddi amgylch. B A E Systems, Glascoed Rof, NP15 1XL.

Fe wnaethom ystyried adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

<https://www.youtube.com/live/r5JUTxRgl-4?si=h6BfJDTkajBmTSrt&t=274>

Wrth nodi manylion y cais a'r farn a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir Maureen Powell ac eiliodd y Cynghorydd Sir Dale Rooke fod cais DM/2023/01679 yn cael ei gymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Cofnodwyd y pleidleisiau canlynol pan roddwyd y mater i bleidlais::

O blaid cymeradwyo	-	7
Yn erbyn cymeradwyo	-	1
Ymatal	-	2

Derbyniwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2023/01679 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

5. Cais DM/2024/00985 - Annedd newydd. Bushes Farm, Chapel Road, Earlswood, Drenewydd Gelli-farch.

Ystyriwyd adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a gyflwynwyd ar gyfer ei wrthod am y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, ystyriwyd y dylid gadael allan yr ail reswm dros wrthod.

<https://www.youtube.com/live/r5JUTxRgl-4?si=h2WG-lbR9ddX8NH2&t=1181>

Wrth nodi manylion y cais a'r sylwadau a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir Maureen Powell ac eiliodd y Cynghorydd Sir Emma Bryn y dylid gwrthod cais DM/2024/00985 am Reswm 1, a amlinellir yn yr adroddiad.

Cofnodwyd y pleidleisiau dilynol pan roddwyd y mater i bleidlais:

O blaid gwrthod	-	6
Yn erbyn gwrthod	-	6
Ymatal	-	1

Roedd y cynnig yn glwm.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 5ed Tachwedd, 2024, 2.00 pm

Felly, gweithredodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw a phleidleisiodd i wrthod y cais am Reswm 1, a amlinellir yn yr adroddiad. Cafodd y cynnig felly ei dderbyn.

Penderfynwyd gwrthod cais DM/2024/00985 am Reswm 1, a amlinellir yn yr adroddiad.

6. Cais DM/2024/00845 - Estyniad cefn arfaethedig ac estyniad porth blaen. 4 Tanglewood Close, Y Fenni, NP7 5RJ.

Ystyriwyd adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr lle'r oedd argymhelliad y swyddog yn rhanedig, fel sy'n dilyn:

Estyniad Cefn: Gwrthod am yr un rheswm a roddir yn yr adroddiad gyda gwelliant i dynnu unrhyw gyfeiriad at breifatrwydd.

Porth: Cymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

<https://www.youtube.com/live/r5JUTxRgl-4?si=Jzvu3g1p8NIPkgt&t=3962>

Wrth nodi manylion y cais a'r sylwadau a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir Maureen Powell ac eiliodd y Cynghorydd Sir Su McConnel ein bod yn cynnig argymhelliad y swyddog fel sy'n dilyn:

Estyniad Cefn: Gwrthod am yr un reswm a amlinellir yn yr adroddiad gyda gwelliant i ddileu unrhyw gyfeiriad at breifatrwydd.

Porth: Cymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad

Cofnodwyd y pleidleisiau canlynol pan roddwyd y mater i bleidlais:

O blaid argymhelliad y swyddog	-	11
Yn erbyn argymhelliad y swyddog	-	2
Ymatal	-	0

Derbyniwyd y cynnig.

Fe wnaethom benderfynu cefnogi argymhelliad y swyddog yng nghyswllt cais DM/2024/00845 fel sy'n dilyn:

Estyniad Cefn: Gwrthod am yr un rheswm a amlinellir yn yr adroddiad gyda gwelliant i ddileu unrhyw gyfeiriad at breifatrwydd.

Porth: Cymeradwyo gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

7. ER GWYBODAETH - Yr Arolygiaeth Gynllunio - Apeliadau / Penderfyniadau Costau a Dderbyniwyd:

<https://www.youtube.com/live/r5JUTxRgl-4?si=DS1cFRI6-pCw7F2S&t=5848>

7.1. Penderfyniad Apêl - 17 Heol Eglwys Fair, Cas-gwent, Sir Fynwy, NP16 5EW.
Cawsom adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad a gynhaliwyd yn 17 Heol Eglwys Fair, Cas-gwent, Sir Fynwy ar 9 Medi 2024.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 5ed Tachwedd, 2024, 2.00 pm

Nodwyd y cafodd yr apêl ei gwrthod.

7.2. Penderfyniad Apêl - Hen Safle Felinwen Dŵr Cymru, Heol Brynbuga, Drenwydd Gelli-farch, Sir Fynwy, NP16 6BU.

Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n cyfeirio at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn Hen Safle Felinwen Dŵr Cymru, Heol Brynbuga, Drenwydd Gelli-farch, Sir Fynwy ar 9 Medi 2024.

Nodwyd y gwrthodwyd yr apêl.

7.3. Penderfyniad Apêl - Tir i'r Gogledd Orllewin o Holly Lodge (a elwir hefyd yn Dir yn High Mass Cottage a Thir yn Church View), Five Lanes North, Five Lanes, Caerwent, Sir Fynwy NP26 5PG.

Cawsom adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n cyfeirio at benderfyniad apêl yn cynnwys ymweliad safle a gynhaliwyd ar dir i'r gogledd orllewin o Holly Lodge (a elwir hefyd yn dir yn High Mass Cottage a thir yn Church View), Five Lanes North, Five Lanes, Caerwent, Sir Fynwy ar 24 Medi 2024.

Apêl A

Nodwyd y cywiriadau ac amrywiadau a amlinellwyd yn adroddiad yr Arolygydd. Gwrthodwyd Apêl A a chadarnhawyd yr hysbysiad gorfodaeth.

Apêl B

Nodwyd y caniatwyd yr apêl a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd o amaethyddiaeth i dir ar gyfer cadw ceffylau (ôl-weithredol), cynnig i godi bloc stablau ar gyfer 5 ceffyl, codi adeilad storio ategol, adeiladu manege, ar dir i'r gogledd orllewin o Holly Lodge (a elwir hefyd yn dir yn High Mass Cottage a thir yn Church View), Five Lanes North, Five Lanes, Caerwent, Sir Fynwy NP26 5PG, yn unol â thelerau'r cais, cyfeirnod DM/2023/01042, dyddiedig 24 Gorffennaf 2023, gyda'r amodau a amlinellir yn yr atodlen.

7.4. Penderfyniad Costau - Tir i'r Gogledd Orllewin o Holly Lodge (a elwir hefyd yn Dir yn High Mass Cottage a Thir yn Church View), Five Lanes North, Five Lanes, Caerwent, Sir Fynwy NP26 5PG.

Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n cyfeirio at benderfyniad y costau yng nghyswllt tir i'r gogledd orllewin o Holly Lodge (a elwir hefyd yn dir yn High Mass Cottage a thir yn Church View), Five Lanes North, Five Lanes, Caerwent, Sir Fynwy.

Nodwyd y gwrthodwyd y cais am ddyfarniad costau yng nghyswllt Apêl A ac Apêl B.

8. ER GWYBODAETH: Apeliadau a dderbyniwyd rhwng 1af Gorffennaf a'r 30ain Medi 2024.

Nodwyd yr apeliadau cynllunio a gafodd yr Adran Cynllunio ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf i 30 Medi 2024.